# Cofnodion

## Pwyllgor Archwilio

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Hydref 2019

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Jordan, H Thomas, K Thomas, R White, D Williams, P Hourahine and Mr J Baker

Pamela Tasker (Governance Officers), Paul Flint (Performance and Research Business Partner), Jan Furtek (Principal Auditor), Tracy McKim (Partnership Policy & Involvement Manager), Sarah Morgan (Chief Education Officer), Meirion Rushworth (Head of Finance), Andrew Wathan (Chief Internal Auditor) and Deborah Weston (Service Development Manager)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr J Guy and L Lacey

---

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2019 fel cofnod cywir.

3 **Ymarfer Hunanwerthuso ' r Pwyllgor Archwilio**

Gofynnodd y Prif Archwiliwr Mewnol i Aelodau’r Pwyllgor gwblhau Ymarfer Hunan-werthuso. Y tro diwethaf a wnaeth Aelodau’r Pwyllgor hyn oedd ddwy flynedd yn ôl ym mis Tachwedd 2017. Eglurodd y Prif Archwilydd Mewnol mai diben yr ymarfer oedd cael gwybod sut roedd yr Aelodau’n teimlo’r oedd y Pwyllgor Archwilio’n gweithio a pha mor effeithiol roedd, yn cynnwys ei rolau a chyfrifoldebau, prosesau mewnol, sut câi ei redeg a.y.b. Gofynnodd y Prif Archwiliwr Mewnol iddynt wneud yr ymarfer a’i ddychwelyd a dywedwyd wrth Aelodau’r Pwyllgor bod y Prif Archwiliwr Mewnol ar gael i drafod yr ymarfer petai ar yr Aelodau angen gwneud hynny.
Gofynnodd y Cadeirydd i’r Aelodau gwblhau’r ymarferion eleni a dywedodd y gellid cynnwys yr ymatebion hyn wedyn wrth lunio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4 **Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus**

Eglurodd y Prif Archwiliwr Mewnol i Aelodau’r Pwyllgor Archwilio y gwnaed archwiliad allanol ym mis Mawrth 2018 ac y cafwyd bod yr adran Archwilio yn cydymffurfio ar y cyfan â’r Safonau (lefel uchef cydymffurfiaeth). Cafwyd cynllun gweithredu diweddar gyda 9 cam i’w cymryd. Rhoddodd y Prif Archwilydd Mewnol ddiweddariad llafar yn cadarnhau yr aethpwyd i’r afael â 8 cam gweithredu a bod 1 yn aros. Caiff y mater hon ei thrin erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon a bydd yr asesiad nesaf ymhen 4 blynedd. Dywedwyd sut roedd y tîm

yn cymharu â thimau archwilio eraill a chadarnhawyd bod y tîm yn cymharu'n deg â thimau Archwilio Mewnol eraill yng Nghymru.

5 **Diweddariad am y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Hystyried Gan y Cabinet Ym Mis Medi)**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor edrych ar Ddiweddariad y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1. Eglurodd y Rheolwr Partneriaeth Polisi a Chynnwys wrth y Pwyllgor mai diben yr archwiliad oedd asesu'r prosesau rheoli risg. Cafodd y Cabinet hefyd ddiweddariad am risg.

Prif Bwyntiau:

Cadarnhawyd bod y Polisi Rheoli Risg yn cael ei ailddrafftio ac y câi ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio yn y dyfodol gyda'r newidiadau.

Ar ddiwedd Chwarter 1, cafwyd bod 7 risg Lefel Uchel (sgorau risg 15-25) a 5 risg canolig (sgorau risg 5 i 14)

Ar ddiwedd Chwarter 1 roedd 12 risg corfforaethol a oedd yn cynnwys 8 risg uchel a 4 risg canolig. Rhoddodd Atodiad 1 yr adroddiad grynodeb o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol newydd ar gyfer 2019/20.

Dyma grynodeb o'r risgiau:

•Ychwanegwyd risg newydd a nodwyd, sef Galw am gymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anghenion Addysgol Arbennig.
•Aethpwyd â Risg Brexit ymlaen i 2019/20 a chynyddwyd sgôr y risg i 16 ac roedd yn ymateb i'r sefyllfa fythol newidiol.

Cwestiynau:
Dywedodd Aelod ei fod yn meddwl bod y broses yn iawn ond holodd ynghylch y risg uwch yn Ystâd Eiddo Cyngor Casnewydd yr oedd iddi lefel risg 16 a holodd ble roedd y Pwyllgor yn gwneud ymholiadau ynghylch hyn. Cadarnhawyd bod y Cabinet yn edrych ar y sgorau ac na ddylai'r Pwyllgor Archwilio holi ynghylch manylion y risg.

Dywedodd Aelod bod risg newydd Lleoliadau Addysgol y Tu Allan i'r Sir yn syndod oherwydd y meddylid fod y maes hwn yn iawn oherwydd adeilad newydd a gafwyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yr oedd angen lleoliadau arnynt.

Cadarnhaodd y Rheolwr Polisi, Partneriaeth a Chynnwys fod y risg addysg hwn yn berthnasol i'r gofynion addysg newydd.

Trafodwyd mai risg sy'n cynnwys y Cyngor cyfan oedd y risg Gwasanaethau Cymdeithasol ond roedd y risg Addysg hwn yn risg uwch na hynny a bod y 3 risg addysg yn cymhlethu ei gilydd.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi edrych ar y broses gyffredinol ond y gellid bod newydd yn yr archwilio felly ar y cam hwn, gallwn edrych ar hyn yn y dyfodol. Gallai'r newid ddigwydd ymhen tua 18 mis.

Holwyd pwy oedd yn gyfrifol am y materion Brexit a chadarnhawyd mai'r Cabinet oedd yn gyfrifol. Y Cabinet oedd yn rheoli'r gofrestr risgiau lawn ac roedd yr adran Archwilio yn adolygu'r broses.
Trafodwyd fel mae Brexit yn effeithio ar bopeth ond bydd yr effaith yn fwy ar rai pethau a chadarnhaodd y Cadeirydd fod y cwestiwn yn un dilys.
Cadarnhawyd y gallai'r holl Aelodau fynd i sesiwn friffio ynghylch Brexit.

Roedd gan Aelod gwestiwn am y pwysau ariannol ar ysgolion a beth fyddai sefyllfa hynny yn Chwarter 2. Trafodwyd sut roedd rhai ysgolion yn cael trafferth ymdopi â diffyg yn eu cyllideb a bod y Gwasanaethau Addysg a'r timau Ariannol yn cydweithio i ostwng y diffyg hwn.

Ar ddiwedd Chwarter 1, roedd y risgiau bod diffyg yng nghyllidebau'r ysgolion yn sgôr uchel a gofynnodd aelod pam roedd diffyg ac beth fyddai'n diwgydd. Dywedodd y Cadeirydd efallai bod hon yn fater i'r Adran Graffu.

Soniodd y Cadeirydd hefyd am y tabl Proffil Sgôr Risg ar dudalen 17 a sut roedd y Pwyllgor eisiau gweld y risg ac a ddylai bod sylw yn dweud sut y cai hyn ei leihau. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y byddai'n ddefnyddiol petai colofn yn dangos cyfeiriad y risg.

Gofynnodd Aelod sut roeddem yn gwybod bod yr asesiad yn gywir; gallai goblygiadau Brexit fod ymhen blynyddoedd ac fel Cyngor mae Brexit yn cymryd llawer o le yn ein meddyliau ond does fawr y gallwn ei wneud yn ei gylch. Gofynnodd yr Aelod hefyd a gafodd y risg hwn ei or-amcan.

Cadarnhaodd y Rheolwr Polisi, Partneriaeth a Chynnwys fod llawer o bethau y gallai'r Cyngor eu gwneud ynghylch Brexit a bod sgôr ar gyfer y meysydd unigol yr effeithir arnynt. Mewn perthynas â'r risgiau cynyddol, bu adolygiad pellach gan yr uwch dimau rheoli y cytunwyd arnynt eto gan y Cabinet. Traddodir cyflwyniad am y broses hon i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cafwyd ymholiad ynghylch paragraff 3 ar dudalen 13 mewn perthynas â'r Awch am Risg ac a oedd un ar hyn o bryd.
Cadarnhawyd y byddai Polisi Rheoli Risg yn disodli'r Strategaeth Rheoli Risg gyfredol a bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gydag Aelodau Cabinet ynghylch beth dylai Awch am Risg fod. Byddai'r strategaeth newydd yn bendant ynghylch beth oedd hyn. Eglurwyd bod awch am risg yn esblygu felli ni gynrychiolir hyn yn y polisiau risg.
Mewn perthynas â'r risg ynghylch plant sy'n agored i niwed, cymerir gofal yn y maes hwn. Dywedodd y Cadeirydd y cytunwyd y gellid mynegi'n well y dylai bod rhywfaint yn fwy o risg mewn perthynas â'r dulliau Rheoli Ariannol.
Dywedodd y Cadeirydd fod cyfyngiad ar yr hyn y gall Aelodau ei wneud; gallai'r Pwyllgor wneud ymholiadau ynghylch y broses ond ni allai ddweud y dylai un ffigwr fod yn un arall. Gallai Llywodraeth Cymru benderfynu y gallai hyn amrywio ac efallai y gallai'r Adran Archwilio wneud penderfyniadau fel hyn yn y dyfodol.

Awgrymwyd efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael cyflwyniad ar y Broses Risg mewn agenda yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y bu mewn Cynhadledd Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio yn trafod dogfen ymgynghori ac mai'r cynllun oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y ddogfen yn amodol ar ymgynghoriad eang.

Felly mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Archwilio yn newid a deuid â'r cynllun gerbron y Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

Cytunwyd:

Y bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael cyflwyniad ar y Broses Risg mewn pwyllgor pellach.

6 **Galw yn y Prif Swyddog Addysg Ynghylch Archwilio Mewnol Tripiau Ysgol ac Ymweliadau Gan Arwain at ail Farn Anfoddhaol**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r eitem hon yn rhif 8 ar yr agenda ac y byddai'r eitem "Galw'r Prif Swyddog Addysg i mewn ynghylch Archwiliad Mewnol Tripiau ac Ymweliadau Ysgol sy'n arwain at ail Farn Anfoddhaol" nawr yn rhif 7.

Ail-ddywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cael gwybod y câi'r eitem hon ar yr agenda ei hanfon ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Hydref oherwydd bod mis Medi yn amser prysur i ysgolion. Anfonwyd gwahoddiad at Gadeirydd y Llywodraethwyr a Phennaeth Ysgol Caerllion ond gofynnon nhw am estyniad i anfon yr eitem ymlaen at gyfarfod mis Tachwedd y Pwyllgor.

Mynegodd y Cadeirydd ei siom nad oedd y partïon a wahoddwyd yno oherwydd roedd angen i'r ddau barti fod yn y Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd hyn yn dderbyniol.

Awgrymodd y Cadeirydd ohirio'r eitem yn yr agenda tan bwyllgor mis Tachwedd ac os na fyddai Cadeirydd y Llywodraethwyr na'r Pennaeth yno, byddai'r cyfarfod pwyllgor yn mynd rhagddo hebddyn nhw.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Archwiliad wedi digwydd ym mis Rhagfyr 2018, sef misoedd cyn y cyfarfod Pwyllgor presennol a phetai'r partïon yn anghytuno â'r adroddiad, byddai angen iddyn nhw drafod y deunydd ynddo.

Dywedodd Aelod nad oedd yn fodlon ar absenoldeb y partïon o'r cyfarfod Pwyllgor ac roedd eisiau herio hyn.

Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol ei fod yn ymwybodol yr eir i'r afael â rhai o'r materion a bod y Pennaeth wedi anghytuno â rhai o'r pryderon a godwyd yn adroddiad yr Archwiliad Mewnol. Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol yr wythnos ddiwethaf ac roedd yn cynnwys sylwadau rheoli gan y Pennaeth. Nid oedd yn hysbys a oedd y camau gweithredu wedi eu gwethredu ar hyn o bryd; caiff hyn ei wirio pan fo'r tîm Archwilio Mewnol yn cynna; archwiliad dilynol o fewn 6 i 12 mis ar ôl cyflwyno'r adroddiad terfynol.

Gofynnodd Aelod a oedd yr ysgol yn y broses o drafod y materion â'r Adran Gyllid.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod lawer o waith wedi ei wneud â'r holl ysgolion mewn perthynas â'u cyllidebau yn ogystal ag Ysgol Caerleon. Cadarnhaodd hefyd nad oedd y sefyllfa wedi ei datrys ond bod trafodaethau'n mynd rhagddynt a bod safbwynt y Cyngor yn gadarn. Awgrymwyd camau gweithredu wrth yr ysgol a byddai'r Pennaeth yn eu hystyried a châi hyn ei gadarnhau wedi i'r Adran Gyllid drafod â'r Pennaeth cyfarfod.

Holodd Aelod ai ymgais i oedi oedd yr absenoldeb oherwydd bod pryderon ynghylch y ffigyrau o ran y diffyg o £1 miliwn a ragwelir oherwydd bod angen lleihau hyn gan ei fod yn bryderus.

Cytunodd y Cadeirydd â'r datganiad hwn a dywedodd fod angen gofyn cwestiynau ehangach ond nad oedd hynny'n briodol yn y cyfarfod hwn. Dywedodd y Cadeirydd hefyd os na ddeuai'r partion a wahoddwyd i'r cyfarfod ym mis Tachwedd, y byddai'r Prif Weithredwr yn cael gwybod.

Cadarnhawyd y câi'r ffigyrau eu hadolygu yn fuan a gofynnodd y Cadeirydd am i'r Pennaeth Cyllid roi diweddariad ar lafar i'r Pwyllgor ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf mewn cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

Dywedwyd bod angen atebion ysgrifenedig ar y Pwyllgor mewn perthynas ag a oedd yr ysgol wedi mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd oherwydd y gallai'r Pwyllgor nawr fod yn trafod materion nad ydynt yn berthnasol bellach. Cadarnhaodd y Cadeirydd y gofynnid am ymateb ysgrifenedig gan y Pennaeth.

Trafodwyd â'r Pwyllgor bod materion eraill yn yr adroddiad Archwilio a oedd yn peri pryder nid yn unig y rhai ariannol ond roedd pryderon hefyd ynghylch esgeulustod.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod angen edrych ar yr holl faterion oherwydd bod y diffyg yn codi pryder yn ogystal â'r materion dydd i ddydd ac roedd angen trafodaeth gytbwys.

Gofynnodd Aelod oni ddylid rhoi materion fel hyn ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol mai crynodeb o wendidau allweddol a nodwyd yn ystod archwiliad yr Ysgol oedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ac agrwymwyd y câi'r Pwyllgor gyflwyniad gan y Prif Archwilydd Mewnol ar sut caiff adroddiadau'r adran Archwilio Mewnol eu llunio a sut deuir i'r farn gyffredinol o ystyried y gwendidau a'r cryfderau.

Dywedwyd bod eitem 3:10 yn y tabl Canolraddol wedi bod yn y Tabl Sylweddol yn fersiynau blaenorol adroddiad yr Archwiliadau Mewnol a bod hyn yn dangos bod gwaith wedi ei wneud. Ailaseswyd y risg ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth.

Cytunwyd:
•Y câi'r eitem ar yr agenda ei hanfod ymlaen i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 21 Tachwedd2019;
•Yr anfonau'r Swyddog Cynorthwyo Cyrff Llywodraethu lythyr at bennaeth Ysgol Caerllion yn gofyn am ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad archwilio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio;
•Y byddai'r Pennaeth Cyllid yn rhoi diweddariad ar lafar ar y cynnydd o ran cyllid.

7 **Galw yn y Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Caerllion Ynghylch yr Archwiliad Mewnol Barn Anfoddhaol**

Fel nodwyd eisoes, newidiodd y Cadeirydd yr eitem hon o eitem 8 i eitem 7.
Rhoddodd y Prif Archwilydd Mewnol wybod i'r Pwyllgor bod Aelodau'r Pwyllgor wedi cytuno i alw'r Prif Swyddog Addysg i mewn i gyflwyno rhesymau dros ddulliau rheoli gwan a rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor y cymerid camau gweithredu i wneud y gwelliannau angenrheidiol ar ôl cyflwyno diweddariad hanner blwyddyn yr adran Archwilio Mewnol ar farn archwilio anfoddhaol ym mis Mehefin 2019.

Eglurodd y Prif Swyddog Addysg fod gwerth am arian yn bwysig iawn wrth gaffael arbenigwr sy'n gweithio yn y gwasanaeth ac oherwydd ei bod yn anodd iawn gwneud asesiadau risg ar deithiau ysgol, ystyrid atebion eraill megis beth sydd ar gael mewn awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, nid oedd urhyw beth wedi ateb anghenion y gwasanaeth ac nawr oherwydd bod opsiwn wedi codi ar gyfer contract newydd ar 1 Ionawr 2020, cafodd y tîm Archwilio wybod na fyddai unrhyw beth mewn lle tan hynny. Cadarnhawyd wrth y Pwyllgor y byddai'r contract newydd hwn yn ateb gofynion y tîm Archwilio.

Camau a gymerwyd:

•Oedi cytundeb ar gyfer arbenigwr caffael arall;
•Mewn perthynas â system gyfrifiadurol Evolve, roedd angen 1-2 cydlynwr taith i gofrestru'r tripiau i'w cadarnhau e.e. taith fechan neu daith bell. Dylai bod nifer o bobl sydd wedi eu cofrestru ar y system hon wedi cael eu tynnu oddi arni. Dywedwyd y byddai'r cydlynydd teithiau'n gwneud y gwiriadau ar gyfer y teithiau ac os oess system Evolve yn wahanol i'r ysgol, cysylltid er mwyn tynnu'r person hynny a bod hyn yn digwydd y ddwy ffordd ond ar yr ysgol mae'r cyfrifoldeb a byddai hyn yn cael ei fynnu yn llym yn y dyfodol.
•Nodwyd beirniadaeth pan nad oedd yr ysgolion wedi rhoi digon o hysbysiad, sef 28 diwrnod am daith. Roedd ysgolion wedi bod yn cyflwyno gwybodaeth yn hwyr oherwydd bod ysgolion yn talu am y teithiau. Cawsai'r ysgol wybod nad oedd hyn yn dderbyniol. Oherwydd nad oedd hyn yn bodloni gofynion y tîm Archwilio, roedd gwiriadau nawr yn cael eu gwneud ar bob taith ysgol a ddaw trwodd a chaiff y rhai heb eu hawdurdodi gan y cydlynydd teithiau eu

hamlygu'n goch. Roedd dwy ysgol wedi cyflwyno hysbystiad yn hwyr a chafodd hyn ei uwchgyfeirio at y Pennaeth. Gobeithwyd bod hyn yn sicrhau'r Pwyllgor bod gwelliannau wedi eu gwneud.
•Ni chafwyd bod unrhyw daith heb awdurdod. Cyfrifoldeb y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu yw sicrhau y caed awdurdod ac mae peidio â chael awdurdod o bosibl yn fater ddisgyblu.

•Mewn perthynas â Hyfforddiant, deallodd y tîm Archwilio na chafwyd hyfforddiant ond cafodd wybod ers hynny bod hyfforddiant wedi ei deilwra ar gael bob tymor yr hydref. Mae gan Evolve gyfleuster hyfforddi i ddangos bod hyfforddiant wedi ei wneud ac mae hwn yn cael ei ddefnyddio bellach, yn groes i'r gorffennol.

Cwestiynau:

Trafodwyd os na chafodd taith ysgol ei hawdurdodi a digwyddodd rhywbeth ar y daith, yna ar y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu y byddai'r cyfrifoldeb.
Petai'r daith wedi ei hawdurdodi a rhywbeth yn digwydd, byddai;n dibynnu ar natur y digwyddiad. Byddai'r ysgol o hyd yn gyfrifol am ddiogelwch disgyblion unigol ac am asesu risg.

Gofynnodd y Cadeirydd os mai ar yr ysgol roedd y cyfrifoldeb ym mhob achos, pa wahaniaeth a wna Evolve. Cadarnhawyd ei fod yn dangos bod asesiad risg wedi ei wneud ac mai nid y Pennaeth oedd cydlynydd y daith a bod angen statws uwch ar rai categoriau. Eglurwn yd wrth y Pwyllgor bod y gyfradd athrawon a disgyblion ar deithiau yn dibynnu ar ble mae'r daith; rhywedd y disgybliom; y bwyd a diod y mae angen; y tywydd a byddai angen i'r cydlynydd teithiau wybod sut dir sydd a'r lleoliad a.y.b felly mae'r asesiad risg yn fanwl iawn. Gofynnodd Aelod pwy oedd yn gyfrifol am weithgareddau awyr agored. Dywedwyd y cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllaw ar deithiau yn 2010 a bod polisi tripiau bellach ac mai cyfrifoldeb yr ysgol oedd cael awdurdod ar gyfer teithiau.

Dywedodd Aelod y bu farw person yn ystod taith ysgol a gofynnodd sut byddai ysgolion yn sicrhau diogelwch oherwydd bod hyn yn bryder. Cadarnhawyd bod trefniadau ar hyn o bryd a bod ymchwil yn digwydd i wed a ydynt ar y lefel briodol ac ni chaniateir taith fyth os yw'r risg yn rhy uchel.

Cyfeiriodd y cadeiryddd at bwynt 1.09 ar dudalen 50 a gofynnodd a oedd yn broblem a chadarnhawyd bod hwn yn unihgolyn hunan-gyflogedig a bod ei rôl yn y farchnad yn gyfyngedig felly mater o gydbwyso'r risg yw hon ac mae modelau darparu eraill yn cael eu hystyried. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn gweld problem gyda thrydydd parti a.y.b. ond bod y llinell hon yn awgrymu bod y person wedi ei ddal ag IR35 felly mater ariannol oedd hon oherwydd bod yn rhaid ystyried pob contractiwr yn yr un modd.

Eglurwyd mai'r broses oedd bod y person yn mynd trwy AD a'r Gyflogres on ei fod yn cael ei asesu yn iawn ac y byddai'r Gyflogres yn gwneud hyn. Argymhellwyd bod y Pennaeth Cyllid yn cael trafodaeth â'r Prif Swyddog Addysg a'r tîm ynghylch hyn. Roedd AD eisoes wedi rhoi cymorth.

Dywedodd y Cadeirydd bod dau adroddiad archwilio anffafriol a'i bod yn hawdd mynd i'r afael â hyn. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg mai'r broblem oedd bod yr unigolyn wedi ymddeol ac nad oedd eisiau contract cyflogaeth â'r Cyngor a phe caed hyn ei orfodi efallai na fyddai ganddo ddiddordeb yn y rôl mwyach.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cyngor hwn yn wallus oherwydd bod cael eich dal yn IR35 ddim yn golygu bod contract cyflogaeth. Cyfraith Treth ydy IR35 nid Cyfraith Cyflogaeth. Nid oes angen cytundeb cyflogaeth ar yr unigolyn hyn ond cafodd y gweithiwr ei ddal gan IR35.

I grynhoi, dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol fod y tîm Archwilio yn gwirio yn ôl polisi'r Cyngor i sicrhau bod pethau'n cydymffurfio ac mewn rhai achosion roedd cryfderau a gwendidau ond gellid sicrhau'r Pwyllgor bod gwelliannau yn cael eu gwneud.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified